

EDRYCH A GWELD

Myfyrdod gan y Parch Jim Clarke

Darlleniadau:

1 Samuel 16.1-13

Ioan 9: 1-41

Ond ydy hi'n rhyfedd ac yn hynod fel y mae'r bennod hon yn Samuel yn dweud wrthym nad ydio damaid o ots sut yr ydym yn edrych, ac eto'n dweud wrthym ar yr un pryd mor olygus ydy Dafydd. Mae'r rhelyw ohonom sy'n gwneud ein gwallt neu'n ymbincio o flaen y drych yn meddwl yn wahanol wrth gwrs! Gyda'n tafod yn y boch gelwir arnom i ymatal rhag creu argraffiadau sydyn neu ddod i benderfyniadau simsan am eraill rhag inni gyfeiliorni a gwneud cam â'n gilydd.

Edrychwch ar Samuel – mae'n dynesu at Saul gan wybod mor dreisgar y gall hwnnw fod; gŵyr hefyd fod y bobl yn amau nad ydy o wedi dod mewn tangnefedd i geisio heddwch. Mae heddiw yn gyfle inni weddio dros y gwledydd hynny lle y mae hunaniaeth crefyddol yn fwy o fygythiad ac yn esgor ar drais. Os ydym yn ffyddlon i Dduw yna fe ddylem fod yn ffyddlon i bob ymgais i greu heddwch. Yn union fel yr ydym yn cydweithio i ddileu ymlediad y feirws Covid-19, dylem weddio bob amser dros bobl o bob ffydd a chred a diwylliant er mwyn inni allu agosau ac nid ymwahanu.

Wrth edrych ar y gwrthdaro y sydd rhwng Saul a Samuel, dylem hefyd weddio dros fannau fel Rwsia, lle mae wladwriaeth a'r eglwys ym mhoced ei gilydd; lleoedd fel Myanmar, lle mae'r wladwriaeth wedi erlyn a cheisio difrodi lleiafrifoedd crefyddol; dylem weddio dros ddiffyg ffydd pobl y Deyrnas Unedig lle mae diofalwch, diffyg cred, gwrthwynebiad diog a chamarweiniol tuag at bobl a pethau'r ffydd yn tawel ddinistrio'r dyfodol crefyddol yn ein mysg. Dylem weddio'n daer dros y pethau hyn.

A beth am Dafydd, yr un a ddewsiodd Duw? Aeth yn angof bron ymysg y teulu, ac eto ef oedd yr ieuengaf o'r holl frodyr; ef oedd y mab ieuengaf, a ddefnyddiodd ei allu a'i sgiliau fel bugail i achub ei frodyr yn y drin a choncro Goleiath. Dyma'r un fydd yn edrych yn drugarog ar ei erlynydd, Saul. Dyma'r un a ddaw i oruchwylio'r genedl a chadw trefn arni ac

yntau'n wr ifanc, di-brofiad, di-gefn. Peryg yw ein bod ninnau hefyd yn ymwrthod â doniau a chyfraniad y rhai sydd yn iau na ni, ac yn sefyll yn erbyn estyn cyfle iddynt arwain y ffordd. Drwy anwybyddu doniau'r ifanc rydym yn amwybyddu Duw a'i fwriadau ar ein cyfer fel cenedl heddiw. Ceir yma gyfle i weddio dros bawb sydd yn gweithio ym myd Addysg, y rhai fydd yn gorfod addasu i ddysgu a hyfforddi disgyblion ar y Wê, y rhai fydd yn gorfod ymdrechu i gadw drysau ysgolion yn agored i blant y gweithwyr angenrheidiol. Dylem weddio dros y rhai fydd ar gael i leddfu pryderon plant a'u rhieni am ddyfodol arholiadau a chanlyniadau ar gyfer colegau ac ati. Dylem gofio yr athrawon fydd yn gorfod wynebu heriau newydd mewn cyfnod dyrys, tra'n ceisio gwarchod a thrysori y bobl ifanc a ymddiredir i'w gofal gennym.

A ninnau yn ceisio pwyso'n drymach ar ein ffydd a'n cred mewn dyddiau dyrys, credaf fod y Duw a estynnodd alwad i fugail ifanc yn galw arnom ninnau hefyd i beidio edrych gydag embaras ar y rhai y mae eu gwaith yn anniddorol ac eto'n gwbl anghepgor i gymdeithas. Yn ein gweddiâu dewch inni gofio'r rhai sydd yn dal ati i ddiogelu a darparu cyflenwadau trydan, nwy a chyflenwadau eraill. Dylem gofio am y rhai sydd yn gweithio ym myd darlledu a'r cyfryngau cymdeithasol. Dylem weddio dros lanhawyr ym mhob maes. Gweddiwn dros wneuthurwyr a chyflenwyr bwydydd, y gyrwyr lorïau a rheolwyr pob warws sy'n darparu bwyd ar ein cyfer. Dylem oedi ennyd ac offrymu gweddi o ddiolch iddynt am ddal ati i wasanaethu ar ein rhan.

A dyma ni mewn sefyllfa lle mae'n heglwysi ar gau, ac addoliad cyhoeddus ddim yn bosib yn ôl yr arfer yn ceisio canfod ffyrdd o gynnal ffydd ein gilydd a bugeilio ein gilydd heb gyffwrdd, heb ysgwyd llaw, heb na chwts na hyg na chusan! Gwelwn ddarlun yma o Dafydd yn cael ei eneinio a ninnau yn pryderu na allwn gyffwrdd bywydau eraill yn y ffordd arferol fel pobl y ffydd. Dylem weddio ar i'r Ysbryd Glân ddod yn nerthol iawn i gyffwrdd gwasanaeth y rhai sydd ac a fydd ar gael i ofalu, arddodi dwylo ac ymgeleddu y rhai mwyaf bregus mewn cymdeithas heddiw. Gweddiwn dros y rhai sydd yn estyn deheulaw cymdeithas – gweithwyr y Gwasanaeth Iechyd, nyrsus ac ymwelwyr iechyd – y rhai fydd yn dal i alw i drin briwiau pobl a chynnig gofal a chysur personol i amryw. Mewn byd lle mae masgiau meddygol yn brin, a gwisgoedd gwarchod gweithwyr

rhag haint yn brin fel aur, dewch inni weddio y bydd Duw yn ei ras yn eu cadw'n ddiogel yn eu hymdrech a'u hymroddiad i'n cadw ninnau yn ddiogel rhag yr haint. Byddwch ddiolchgar – byddwn yn ystyriol a chwbl werthfawrogol o'u hymdrech anhunanol wrth ofalu amdanom.

Nac ydi – tydio daten o ots pwy ydan ni, sut yr ydan ni edrych neu beth yw'n cyfraniad i gymdeithas yn yr argyfwng presennol. Dewch inni bwysu ar Dduw gan ddiolch iddo am y rhai sydd yn gosod eu bywydau eu hunain mewn perygl er mwyn ein cadw ni yn ddiogel. Bydded i ni fod yn synhwyrol ac yn ymarferol, gan wneud popeth fedrwn ni i warchod ein hunain, ac eraill a'r greadigaeth. Y cyfan a welwn ni weithiau yw'r hyn a welwn mewn drych ohonom, ond fe wêl Duw beth sydd yn y galon, a pha mor ffyddlon a chryf yw'n crêd ynddo bod dydd.

Gweddiwn:

Dduw graslon, maddau i ni y dallineb sy'n ein rhwystro
rhag gweld y gorau ym mhawb,
gan gymryd mai ni sydd bob amser yn iawn
ac felly bod pawb arall yn anghywir.

Maddau y dallineb sydd weithiau yn gwneud i ni
feddwl bod rhai pobl yn israddol,
neu wneud i ni wrthod cymryd sylw o'u barn
oherwydd eu hanabledd neu eu statws.

Maddau i ni am fod yn ddall i dlodi, rhagfarn ac anghyfiawnder.
Maddau i ni am fod mor ddall fel ein bod yn gweld pobl fel 'neb'.
Maddau i ni, Arglwydd, ac agor ein llygaid
i ryfeddod a phosibiliadau
y berthynas rhwng pobl a chymunedau.

Tywys ni yn ddiogel drwy y cyfnod dyrys hwn yn hanes ein byd,
a thrwy'r cyfan dyfnha a chryfha ein ffydd a'n crêd ynot ein Harglwydd
a'n Duw. Amen.

Seiliedig ar ddeunydd Roots for Churches, gyda chaniatâd